



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad yn dilyn monitro  
Lefel y dilyniant: gwelliant sylweddol**

**Ysgol Rhydygors  
Heol Llansteffan  
Tre Ioan  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 3NQ**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓜ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

Anthony Mulcahy	Arolygydd Cofnodol
Rosemary Lait	Arolygydd Tîm

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Ysgol Rhydygors wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Medi 2014.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### **Argymhelliad 1: Gwella ansawdd a chyfanswm gwaith disgyblion yn gyffredinol**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae arweinwyr wedi rhoi ystod o strategaethau ar waith i wella safonau disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys grwpio pynciau gyda'i gilydd yn gyfadrannau i gryfhau'r meysydd dysgu a rhannu arfer orau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau rhifedd ac yn cymhwysu'r rhain yn dda mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, maent yn casglu, cyflwyno a dadansoddi data o amrywiaeth o arbrofion. Mewn daearyddiaeth, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn defnyddio cyfesurynnau'n gywir i leoli nodweddion ar fap.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda o ran datblygu eu medrau TGCh. Defnyddiant y medrau hyn yn dda ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn celf, mae disgyblion yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng gan gynnwys ffilmiau ac animeiddiadau. Yn y dyniaethau, defnyddiant TGCh i ymchwilio i destunau a gwella'r ffordd y maent yn cyflwyno'u gwaith.

Mewn gwyddoniaeth, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau meddwl yn dda wrth gwblhau ymchwiliadau. Maent yn rhagweld canlyniadau arbrofion ac yn dadansoddi canfyddiadau gan ddefnyddio geirfa briodol sy'n benodol i bwnc.

Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi gwneud llai o gynnydd o ran gwella safonau mewn Saesneg a datblygiad medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

### **Argymhelliad 2: Gwella lefelau presenoldeb a lleihau lefel y gwaharddiadau am gyfnod penodol**

Cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae'r ysgol yn olrhain absenoldeb disgyblion yn dda ac yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i wella presenoldeb disgyblion. Mae'r ysgol wedi rhoi ystod o strategaethau defnyddiol ar waith i wella ymgysylltiad disgyblion â dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno dewisiadau pwnc yng nghyfnod allweddol 4, cynyddu ystod y cyrsiau sydd ar gael i ddisgyblion ddewis o'u plith a datblygu darpariaeth anogaeth. Mae'r strategaethau hyn yn llwyddo o ran gwella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion.

Ers yr arolygiad craidd, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a'r achosion difrifol wedi gostwng yn sylweddol. Yn 2014-2015, collwyd 120 o ddiwrnodau yn sgil gwaharddiadau cyfnod penodol. Gostyngodd hyn i 26.5 diwrnod yn 2014-2015.

Bu gwelliannau tebyg ym mhresenoldeb disgyblion. Y ffigur presenoldeb nas gwiriwyd ar gyfer 2014-2015 yw 92.6%, sy'n gynydd o 8.6 pwynt canran o adeg yr arolygiad diwethaf. Mae arweinwyr wedi dechrau casglu data ar bresenoldeb disgyblion mewn gwersi ac wedi nodi disgyblion sy'n gadael gwersi'n rheolaidd. Mae strategaeth ymyrraeth ar waith ac mae ei heffaith yn cael ei monitro.

### **Argymhelliad 3: Sicrhau bod pob gwर्स yn bodloni anghenion dysgu unigol disgyblion**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers yr arolygiad craidd, mae staff yn gwneud defnydd gwell o ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys data cynnydd disgyblion, i gynllunio gweithgareddau sy'n bodloni anghenion a diddordebau unigol disgyblion.

Mae athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda. Maent yn cynllunio gwersi'n ofalus i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gynnwys a bod rhediad y dysgu'n briodol i anghenion pob disgybl.

Mae athrawon yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ac adnoddau addysgu sy'n gweddu'n dda i anghenion a galluoedd mwyaf y disgyblion. Er enghraifft, mewn mathemateg, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn datrys problemau bywyd go iawn fel pennu costau'r cynhwysion ar gyfer pryd o fwyd neu gyfrifo cyfanswm y dreth ar werth sy'n daladwy ar gynhyrchion. Mewn TGCh, mae disgyblion yn mwynhau creu gwefannau a gemau rhyngweithiol.

Mae arweinwyr cyfadrannau wedi dechrau gweithio gyda'i gilydd i gynllunio gwaith prosiect i ddatblygu medrau bywyd disgyblion a gwella'u hymgysylltiad â dysgu. Fodd bynnag, datblygiad diweddar yw hyn, ac mae'n rhy gynnar i farnu ei effaith ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi addasu'r cwricwlwm yn dda yng nghyfnod allweddol 4 i ddarparu llwybrau dysgu sy'n gweddu'n agos i ddyheadau a diddordebau'r disgyblion.

### **Argymhelliad 4: Rhoi gweithdrefnau marcio ac adborth cyson ar waith**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi adolygu ei pholisi marcio ac wedi gwella ansawdd y marcio ar draws yr ysgol.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi sylwadau adeiladol i ddisgyblion fel eu bod yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw pob disgybl yn ymateb yn dda i'r cyngor hwn. Mewn tua hanner y pynciau, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol y maent yn gweithio arni.

Mewn tua hanner y pynciau, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i fyfyrion ar eu gwaith, rhoi sylwadau ar gyflawniad cyd-ddisgyblion a nodi sut y gallant wella ymhellach.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan mewn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd. Maent yn cwblhau cofnod cynhwysfawr o ganfyddiadau ac yn rhannu'r rhain yn effeithiol gyda staff. Maent yn gosod targedau realistig ar gyfer gwella, ac yn monitro'r rhain yn agos. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi cysondeb gwell mewn gweithdrefnau marcio ac adborth ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi nodi enghreifftiau o arfer dda mewn marcio ac maent yn modelu'r rhain ar draws yr ysgol mewn sesiynau hyfforddi staff.

### **Argymhelliad 5: Sefydlu tîm arweinyddiaeth sefydlog er mwyn i arweinwyr gael eu dwyn i gyfrif am eu cyfrifoldebau cytûn**

Cynnydd boddhaol o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliodd arweinwyr adolygiad ysgol gyfan o'r strwythurau rheoli a staffio. Fe wnaethant nodi meysydd i'w gwella a rhoi trefniadau ffurfiol ar waith i ailstrwythuro'r ysgol. Fel rhan o'r system reoli newydd, penododd yr ysgol bedwar arweinydd cyfadran, o blith y staff presennol, i weithio ochr yn ochr â rheolwyr fel rhan o dîm arweinyddiaeth ehangach. Mae'r arweinwyr hyn yn cymryd cyfrifoldeb am y staff a'r pynciau sy'n cael eu neilltuo i'w cyfadran. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys monitro ac arfarnu eu cyfadranau a rheoli perfformiad staff yn eu timau. Mae arweinwyr cyfadranau wedi ymateb yn dda i'w cyfrifoldebau newydd, ac maent mewn sefyllfa dda i yrru gwelliant yr ysgol yn ei flaen.

Ymunodd y pennaeth dros dro newydd â'r ysgol ym Medi 2015. Er bod llawer o newidiadau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith cyn iddi gyrraedd, mae hi wedi eu cyflawni'n effeithiol a gyda brwdfrydedd. Mae'n sicrhau bod arweinwyr yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn briodol a'u bod yn atebol i uwch reolwyr am berfformiad yr ysgol.

Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn darparu her a chymorth effeithiol i'r ysgol. Mae ganddo ddealltwriaeth glir o amcanion strategol yr ysgol, gan gynnwys pwysigrwydd cynnal tîm rheoli sefydlog i yrru gwelliant yr ysgol yn ei flaen.

Mae'r awdurdod lleol yn adolygu ei ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth ymddygiad ar draws yr awdurdod ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys rôl strategol yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r awdurdod lleol wedi penodi pennaeth parhaol ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn parhau i greu elfen o ansicrwydd i'r ysgol. Fodd bynnag, ceir cryfderau cyffredinol mewn arweinyddiaeth ac mae strategaethau clir ar waith i'r tîm arweinyddiaeth ehangach rannu cyfrifoldeb am wella'r ysgol.

### **Argymhelliad 6: Monitro ac arfarnu blaenoriaethau gwella trwy ymgorffori'r gweithdrefnau hunanarfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar**

Cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae'r ysgol wedi datblygu system effeithiol i arfarnu ei gwaith. Trwy'r broses hunanarfarnu, mae wedi nodi blaenoriaethau clir a phriodol ar gyfer gwella. Mae ei chynllun datblygu ar gyfer 2015-2018 yn nodi graddfeydd amser penodol, cyfrifoldebau staff a chostau.

Mae uwch arweinwyr yn monitro addysgu a dysgu'n dda. Maent yn arsylwi gwersi'n ffurfiol ac yn craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd. Maent wedi datblygu gweithdrefnau effeithiol i sicrhau cysondeb yn y modd y maent yn arfarnu'r gwaith hwn. Maent yn nodi meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu, ac yn gosod targedau priodol. O ganlyniad, mae safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu wedi gwella.

Mae arweinwyr y cwricwlwm yn cynnal dadansoddiad trylwyr o waith yn eu pynciau priodol ac yn rhoi ystyriaeth benodol i safonau disgyblion. Defnyddiant system data electronig yr ysgol yn effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr cyfadrannau yn craffu ar y wybodaeth hon i nodi meysydd i'w gwella yn eu hadrannau. Mae eu hadroddiadau yn rhoi trosolwg clir o waith yr ysgol i uwch reolwyr.

Mae'r ysgol yn gofyn am farn disgyblion ac yn ymateb i'w hawgrymiadau. Er enghraifft, trwy'r cyngor ysgol etholedig, gwnaed newidiadau i'r wisg ysgol. Caiff rhieni a gofawyr gyfleoedd gwerth chweil i rannu eu barn yn anffurfiol a thrwy holiaduron.

### **Argymhelliad 7: Defnyddio staff i fanteisio i'r eithaf ar eu hamser a'u harbenigedd**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi aildrefnu staffio i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i arbenigedd pob unigolyn wrth ddyrannu staff. Caiff staff eu trefnu mewn timau cyfadrannau o dan arweinydd cyfadrannau sy'n rheoli eu perfformiad. Mae gan yr arweinwyr hyn arbenigedd pwnc a hanes o gyflawni arfer dda yn yr ystafell ddosbarth. Mae eu cylch gwaith yn glir, ac mae pawb yn ei ddeall.

Mae gan bob un o'r staff gyfrifoldebau pwnc neu rôl diffiniedig sy'n cael eu hamlinellu'n briodol mewn disgrifiadau swydd newydd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyflwyno gwersi yn eu pwnc arbenigol, ond gallent addysgu gwersi eraill hefyd. Mae uwch arweinwyr yn monitro addysgu'n dda trwy arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae ganddynt drosolwg da o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o fewn pynciau. Maent yn nodi meysydd priodol i'w gwella ac yn gosod targedau addas ar gyfer staff. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da ar gyfer hyfforddiant a datblygiad staff lle mae unigolion yn nodi anghenion datblygiad proffesiynol trwy'r system rheoli perfformiad.

Caiff amser addas ei neilltuo i athrawon ar gyfer paratoi, cynllunio a gweinyddu.

## **Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn, a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.